



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Bwletin GwE



Rhannwch ein Bwletin â staff eich ysgol ac anogwch eich cyd-weithwyr i ymuno â'n rhestr bostio.

Cenhadaeth ein Cenedl: Dathlu cynnydd, cryfhau cynhwysedd, a gallu ymgysylltu ar y cyd yn ein camau nesaf

Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i'n cynhadledd yr wythnos ddiwethaf.

Mae'r holl gyflwyniadau ar gael yn y llyfrgell adnoddau ar G6.

Hoffem glywed eich barn yn y ffurflen adborth sydd ar gael yma:

**FFURFLEN
ADBORTH**



Cynhadledd Ranbarthol Tymor yr Hydref, mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru



**ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES**
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Canlyniadau PISA Cymru

"CADARNHAOL, OND NID PERFFAITH" meddai Kirsty Williams wrth i'r Gweinidog groesawu gwelliant yng nghanlyniadau PISA Cymru

- Cymru'n dal i fyny gyda'r cyfartaledd rhyngwladol ym mhob pwnc am y tro cyntaf
- Sgorau uwch i Gymru ym mhob un o'r tri phwnc ac felly mae'n symud i fyny am y tro cyntaf
- Sgorau gorau erioed mewn darllen a mathemateg, a gwelliant mewn gwyddoniaeth

Rhagor o fanylion:

- [Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru](#)
- [Disgyblion yng Nghymru yn gwneud gwelliant sylweddol mewn mathemateg \[NFER\]](#)
- [Cyflawniad disgyblion 15 mlwydd oed \[Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr\] PISA adroddiad cenedlaethol: 2018](#)

Cynnig GwE ar G6

Fel y gwychoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnis ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [\[https://g6.gwegogled.cymru\]](https://g6.gwegogled.cymru).

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.

Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y **ddolen hon** a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau **yma**.

Gall y dyddiadau/lleoliadau newid. Edrychwch ar G6 am y wybodaeth ddiweddaraf cyn i chi fynychu unrhyw ddigwyddiad.

RHAGFYR	DYDDIAD	LLEOLIAD	CYFRWNG
Sesiwn galw i mewn [Linden House, Yr Wyddgrug]: Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd	04/12/2019	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Dwyieithog
Hyfforddiant Emosiwn ar gyfer Ysgolion	05/12/2019	Porth Eirias, Bae Colwyn	Saesneg
Cyfarfod Cydlynwyr Llythrennedd Gwynedd a Môn	05/12/2019	GwE, Penrallt, Caernarfon	Dwyieithog
Sesiwn galw i mewn [De Gwynedd]: Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd	09/12/2019	Lleoliad i'w gadarnhau	Dwyieithog
Sesiwn galw i mewn [Caernarfon]: Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd	10/12/2019	GwE, Penrallt, Caernarfon	Dwyieithog
Datblygu dull trawsgwricwlaidd o addysgu geirfa a darllen [Uwchradd]	10/12/2019	Canolfan Fusnes Conwy	Saesneg
IONAWR 2020			
1C: ANG Hyfforddiant Ymsefydlu – Diwrnod 1 Cynradd [Cymraeg – Plas Menai]	14/01/2020	Plas Menai, Caernarfon	Cymraeg

Conwy / Dinbych – Cyfarfod Rhwydwaith Saesneg	14/01/2020	Canolfan Fusnes Conwy	Saesneg
1C: ANG Hyfforddiant Ymsefydlu – Diwrnod 1 Cynradd [Saesneg – Llanelwy]	15/01/2020	OpTIC, Llanelwy	Saesneg
Flint / Wrecsam – Cyfarfod Rhwydwaith Saesneg	15/01/2020	Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug	Saesneg
Gwynedd / Môn Cyfarfod Rhwydwaith Saesneg	15/01/2020	Warws Werdd, Cibyn, Caernarfon	Saesneg
1C: ANG Hyfforddiant Ymsefydlu – Diwrnod 1 Cynradd [Saesneg – Wrecsam]	21/01/2020	Catrin Finch, Wrecsam	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodys am Drawma [Llandudno]	21/01/2020	Venue Cymru, Llandudno	Saesneg
Llafaredd@GwE CYNRADD [Carfan 3]	27/01/2020	OpTIC, Llanelwy	Saesneg
Hyfforddiant Datguddio [<i>Unearthing</i>] i Ysgolion	31/01/2020	Porth Eirias, Bae Colwyn	Saesneg

Rhaglenni Proffesiynol

Rhaglen Genedlaethol i Ddatblygu Darpar Benaethiaid - Paratoi ar gyfer CPCP

Mae'r rhaglen ddatblygu hon yn gyfle dysgu proffesiynol cyffrous i arweinwyr ysgol profiadol o bob cwr o Gymru sy'n dymuno bod yn benaethiaid yn y dyfodol agos. Mae cwblhau'r rhaglen yn ddisgwyliad ar gyfer pob ymgeisydd CPCP y dyfodol. Cynhelir y rhaglen dros gyfnod o flwyddyn, ac mae'n gofyn am ymrwymiad sy'n gyfwerth â phum niwrnod rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2020.



Digwyddiadau Dysgu Digidol Rhanbarthol



1 DYDD MAWRTH, 10 MAWRTH 2020

VENUE CYMRU, LLANDUDNO

Mae cewri'r byd dysgu digidol yn ymweld â Gogledd Cymru! Google, Microsoft, Minecraft a llawer iawn mwy! Ymunwch â ni mewn digwyddiad arbennig i ddysgu mwy am y datblygiadau diweddaraf yn y maes dysgu digidol. P'un a ydych yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg ddigidol i gyfoethogi'r dysgu neu ar gychwyn eich taith ddigidol, bydd rhywbeth defnyddiol ar gael i bawb!

CLICIWCH YMA AM RAGOR O WYBODAETH AC I GADW EICH LLE

Cyfarfodydd adolygu Ysgolion Haen 3 Prosiect Asesu Ffurfiannol Rhanbarthol (Shirley Clarke)



Gweler yma ddyddiadau a lleoliadau cyfarfodydd adolygu prosiect Asesu Ffurfiannol (Shirley Clarke) y rhanbarth. Fel y gwyddoch, mae'r cyfarfodydd hyn yn rhan greiddiol o'r prosiect a gofynnir yn garedig i chi wneud pob ymdrech i fynychu.

- Ceir:
- manylion dyddiadau a lleoliadau y cyfarfodydd adolygu i gyd (Cynradd ac Uwchradd)
 - manylion ynghylch y cynnwys a threfn y cyfarfod

Gofynnwn i chi ddarllen cynnwys yr atodiadau yn ofalus gan fod yma wybodaeth bwysig am yr hyn fydd yn digwydd a'r hyn sydd angen i chi ddod gyda chi i'r cyfarfod.

Rydym yn cynnal y cyfarfodydd adolygu ar wahân ar gyfer y cynradd a'r uwchradd y tro hwn, gan wahodd ysgolion uwchradd Haen 2 i fynychu'r cyfarfodydd uwchradd hefyd er mwyn rhannu profiadau, trafod ffyrdd ymlaen ac ati.



GDD - Effaith ac Arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth



Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, bydd GwE yn cynnal Digwyddiad Ymchwil Addysgol Rhanbarthol drwy gyflwyno Seminar yr Education Endowment Foundation.

Bydd y gweithdy yn edrych ar:

- Becyn adnoddau yr EEF: *bridging gap between educational research and classroom practice*.
- *The Sutton Trust* - Mae Pecyn Dysgu ac Addysgu yr EEF - [Teaching and Learning Toolkit](#) - yn crynhoi miloedd o ddarnau ymchwil academiaidd, ac yn eu cyflwyno mewn ffordd ymarferol, hylaw a chadarn.
- Rhannu arferion llwyddiannus ledled y rhanbarth o ran ymyraethau/rhaglenni allweddol a'u heffaith.
- Pwysigrwydd ymyrraeth gynnar yn y dosbarth o ran llythrennedd, rhifedd a chau'r bwlch.



Education
Endowment
Foundation

COFRESTRWCH DRWY G6.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynadleddau a Chyfleoedd gan Eraill

Gweler isod manylion y cyfleoedd a allai fod yn ddefnyddiol yn eich ysgol. Sylwch nad yw GwE o reidrwydd yn cymeradwyo nac yn sicrhau ansawdd y cyfleoedd isod. Cysylltwch â'r sefydliadau'n uniongyrchol os oes gennych ymholiadau:

Rhaglen 'bontio' newydd ar gyfer athrawon cynradd sy'n siarad Cymraeg ac yn dymuno addysgu mewn ysgolion uwchradd



YDYCH CHI'N ATHRO NEU ATHRAWES YSGOL GYNRADD SY'N SIARAD CYMRAEG? YDYCH CHI WEDI YSTYRIED ADDYSGU MEWN YSGOL UWCHRADD?

Mae rhaglen newydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfle i athrawon cynradd sy'n siarad Cymraeg [gan gynnwys athrawon nad ydynt mewn swydd barhaol neu rai nad ydynt mewn swydd ar hyn o bryd] i addysgu mewn ysgol uwchradd.

Mae rhaglen beilot yn cynnig datblygiad proffesiynol ac opsiwn gyrfa ychwanegol i athrawon cynradd. Mae'n agored i athrawon cynradd Cymraeg eu hiaith sydd â Statws Athro Cymwysedig a fyddai'n ystyried addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgol uwchradd. Os oes angerdd gennych mewn pwnc arbennig, neu ag awydd addysgu mewn ysgol uwchradd, dyma'ch cyfle. Ewch amdani!



Roeddwn i mor hapus i dderbyn yr her newydd. //

Rhys, Drama

#AddysguCymru
darganfyddiadau.cymru



CLICIWCH YMA AM
RAGOR O FANYLION



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cystadlaethau Gwyddoniaeth a Thechnoleg Eisteddfod Genedlaethol 2020

CEREDIGION – 1-8 AWST 2020

Cliciwch yma am fanylion cystadlaethau gwyddoniaeth a thechnoleg Eisteddfod Genedlaethol 2020 a gynhelir yn Nhregaron. Mae tair cystadlaethau a gwobrau hael o hyd at £1,000.

DYDDIAD CAU: 01/04/2020



GWYDDONIAETH
A THECNOLEG
EISTEDDFOD

CLICIWCH YMA AM
RAGOR O WYBODAETH

Bore Agored Ysgol Eirioli

YSGOL Tŷ FFYNNON, SHOTTON, GLANNAU DYFRDWY, CH5 1HX

05/02/2020 9:30 – 11:30

Dewch draw i'n Bore Agored i weld yr arferion gorau wrth ddefnyddio Numicon ar draws yr ysgol gyfan.

MWY O FANYLION:

Ar gyfer Penaethiaid, athrawon, UDA neu gydlynwyr Mathemateg

Penodwyd Ysgolion Eirioli Numicon wedi iddynt ddangos eu bod nhw'n dysgu ac yn addysgu drwy ddefnyddio dull Numicon i gyflwyno mathemateg ar draws yr ysgol gyfan. Yn seiliedig ar y dull gweithredu haniaethol - darluniadol. Mae Numicon yn annog plant i archwilio mathemateg drwy gyfrwng delweddau a chyfarpar er mwyn deall ac egluro cysyniadau mathemategol.

Wrth ddod i'r bore agored di-dâl hwn, cewch gyfle i arsylwi gwersi a holi am brofiadau'r ysgol o ddefnyddio Numicon, gan gynnwys yr effaith ar ganlyniadau, ymddygiad ac ymroddiad disgyblion.

Dewch draw i weld sut all Numicon weddnewid dysgu ac addysgu mathemateg yn eich ysgol chi.

numicon



ARCHEBWCH EICH LLE
YN RHAD AC AM DDIM

Mantell yr Arbenigwr

1 DYDD MERCHER, 12 CHWEFOR 2020
YSGOL CAE'R NANT, CEI CONNAH
9:30—14:30

Cynhelir Diwrnod Agored yn Ysgol Cae'r Nant, Cei Connah, CH5 4QL [statws ymarferydd SA].

Cyfle i chi ei weld ar waith!

Am ragor o wybodaeth:

☎ 01244 830708

✉ karen.roberts@ycn.flintshire.sch.uk

Cost y cwrs: £40 y pen, i'w dalu ymlaen llaw. Ni ddarperir cinio.

Mae'r diwrnod yn cynnwys:

Gwaith ymchwil i addysgeg MyA, enghreifftiau o arfer dda a thaith ddysgu o amgylch yr ysgol.

Brookfield Primary School Ysgol Gynradd Cae'r Nant



Cyrsiau Blwyddyn 12 a 13

Bydd y cwrs 'Datrys Problemau Mathemateg Anarferol' sy'n paratoi myfyrwyr ar gyfer papurau prawf blwyddyn 13 (MAT, STEP ayyb), yn parhau ar y 7 Rhagfyr ym Mangor. Fodd bynnag, **ni fydd** STEP yn parhau ym Mangor heblaw bod gennych fyfyrwyr blwyddyn 13 sydd â diddordeb. Bydd STEP a Datrys Problemau Mathemateg Anarferol yn parhau yn Wrecsam ar 14 Rhagfyr.

Dysgu Proffesiynol i Athrawon

Bydd cwrs dysgu proffesiynol FM 5 am ddim yn cael ei gynnig i athrawon Gogledd Cymru yn ystod y tymor yma. Gellir cynnal y cwrs yn eich ysgol ar ddiwrnod ysgol neu yn y Brifysgol ar ddyddiau Sadwrn. Cysylltwch â e.w.clode@bangor.ac.uk os oes gennych ddiddordeb.

Rhannu Llyfrau i Hybu Sgiliau Iaith a Chymdeithasol-Emosiynol 2020

A yw eich ysgol gynradd eisiau gwella parodrwydd ysgol a'ch perthynas gyda rhieni?

Oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o ddadansoddiad peilot o raglen Rhannu Llyfrau i rieni?

Os felly, rydym yn eich gwahodd i ymuno â phrosiect cyffrous...

Os oes gennych ddiddordeb ymuno â'r astudiaeth hon, gyrrwch e-bost at Claire Owen psu4ed@bangor.ac.uk neu ffoniwch 01248 383627

Cliciwch yma am ragor o fanylion



Swyddi Gwag

Prif Weithredwr



Swyddog Cysylltiadau a Chefnogi Prosiectau

CLICIWCH YMA AM RAGOR O FANYLION AM Y SWYDDI GWAG



Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter

GwEGogledd.Cymru

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n **gwefan**

Rydym wedi diweddarau ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddf gwarchod data. Gallwch weld y polisi **yma**
Rydych chi tanysgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych chi dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdanysgrio drwy gysylltu â bwletin@gwegogledd.cymru yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.

Y Cliciatur

NEWYDDION I YSGOLION CYNRADD CYMRU

Mae'r fersiwn diweddaraf o Y Cliciatur a *Clic-it Cymru* ar gael nawr ar wefan Hwb.

Cliciwch yma am gopi

Y Cliciatur

Newyddion i Ysgolion Cynradd Cymru



Digimeet

1 DYDD MERCHER, 29 IONAWR 2020

YSGOL GYNRADD BRYCHDYN

16:00—17:30

Ymunwch â ni yn Ysgol Gynradd Brychdyn mewn digwyddiad anffurfiol ar ôl ysgol ble gallwch deithio o amgylch gwahanol fyrdau mewn grwpiau i ddysgu mwy am sut i integreiddio dysgu digidol ar draws y cwricwlwm.

Cliciwch yma i weld mwy ac i gadw lle

Hwb



